**Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad**
**Economy, Treasury and Constitution Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol – Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

29 Mehefin 2023

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ysgrifennu atoch cyn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar 5 Gorffennaf ynghylch Fferm Gilestone er mwyn rhoi gwybod i'r aelodau am y sefyllfa ddiweddaraf.

Y Sefyllfa Bresennol a Meithrin Cysylltiadau â'r Gymuned

Wedi'r diwydrwydd dyladwy cychwynnol, rhannodd Gweinidog yr Economi Ddatganiad Ysgrifenedig â'r Senedd ar 17 Mai gan gyhoeddi'r penderfyniad i fwrw ymlaen â'r camau nesaf a ganlyn:

- rhoi mynediad, drwy drwydded, i gynrychiolwyr Gŵyl y Dyn Gwyrdd, fel y gallant gynnal arolygon amgylcheddol ac arolygon eraill sydd eu hangen er mwyn sicrhau'r trwyddedau a'r caniatadau priodol ar gyfer eu cynnig; ac
- i swyddogion ddechrau trafodaethau ffurfiol â Gŵyl y Dyn Gwyrdd ynghylch prydles.

Ynghyd â'r Datganiad Ysgrifenedig, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfres o Gwestiynau Cyffredin ar wefan Llywodraeth Cymru. Gellir cael gafael arnynt yma. Bwriad y cwestiynau cyffredin hyn yw darparu gwybodaeth swyddogol a chywir ynglŷn â hynt y prosiect i'r gymuned.

Mae cynrychiolwyr Gŵyl y Dyn Gwyrdd hefyd wedi meithrin cysylltiadau yn annibynnol â'r gymuned leol. Mae gwefan Prosiect Gilestone Farm wedi'i lansio sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am y cynllun busnes. Mae taflenni sy'n hyrwyddo'r wefan a'i gwybodaeth wedi'u dosbarthu i bob eiddo yn yr ardal leol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

Bydd gweithgareddau pellach o ran ymwneud â'r gymuned leol yn cael eu cyd-drefnu gan y Cyngor Cymuned fel y sefydliad sydd â'r ymddiriedaeth ddemocrataidd i gynrychioli'r preswylwyr. Yn dilyn penodi Cadeirydd a Chlerc newydd, mae'r trefniadau yn cael eu trafod ar hyn o bryd a byddant yn cael rhagor o sylw dros yr wythnosau nesaf.

<u>Y camau nesaf</u>

Unwaith y bydd y camau nesaf a amlinellir uchod wedi'u cwblhau, bydd gwaith asesu pellach yn cael ei gynnal gan swyddogion yn seiliedig ar y canfyddiadau. Bydd hyn yn cynnwys cynnal asesiad gan ddefnyddio'r Model Fusnes Pump Achos yn ogystal ag ystyried unrhyw faterion penodol ar gyfer y Swyddog Cyfrifyddu. Bydd yr allbynnau o'r ymarferion hyn yn cael eu hadolygu gan grŵp o uwch-swyddogion annibynnol a'r Tîm Arwain Eiddo (dim ond manylion y trafodiad eiddo y bydd y tîm hwn yn eu hystyried). Bydd unrhyw gyngor neu argymhellion dilynol yn cael eu hystyried gan swyddogion arweiniol a'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, fel y bo'n briodol, cyn y cyflwyniad terfynol.

Wedi hyn, bydd Gweinidogion yn cael arfarniad llawn a therfynol o'r opsiynau ynghylch y defnydd posibl o Gilestone Farm yn y dyfodol a hynny er mwyn eu galluogi i ddod i benderfyniad.

<u>Amserlen</u>


Mae Tenantiaeth Busnes Fferm yn ei lle ar delerau masnachol hyd at fis Hydref 2023. Mae'r Denantiaeth Busnes Fferm hon yn sicrhau:

- rheolaeth briodol o'r safle yn y cyfamser;
- digon o amser i gynnal asesiad cychwynnol ar gynllun busnes Gŵyl y Dyn Gwyrdd; ac
- incwm ar gyfer buddsoddiad Llywodraeth Cymru ar y safle.

Pan fydd y gwaith diwydrwydd dyladwy wedi cael ei gwblhau, cyflwynir arfarniad llawn o'r opsiynau terfynol i Weinidogion eu hystyried.

Gyda chofion gorau.

Yn gywir



**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad